Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig. **(Luc 19:10)**

Unwaith eto, mae'r Arglwydd Iesu yn disgrifio pwrpas ei ddyfodiad i'r byd. Ym mhennod 15 o efengyl Luc fe glywsom ddamhegion am y ddafad golledig a'r darn arian colledig, a phenderfyniad y bugail a'r wraig i fynd i geisio a chwilio am yr eiddo coll. A nawr yn hanes Iesu yn Jericho, cawn weld yr Arglwydd ar waith, fel y bugail neu'r wraig, yn ceisio ac yn achub enaid colledig Sacheus.

Y colledig cyfoethog

Un o'r pethau cyntaf y cawn wybod am Sacheus yw ei fod yn brif gasglwr trethi cyfoethog. Roedd tair swyddfa drethi gan Rufain yn yr ardal yma, un yn Jericho, un yng Nghesarea ac un yng Nghapernaum. Roedd Sacheus yn ddyn amlwg iawn, ond hefyd yn ddyn amhoblogaidd iawn yng ngolwg ei gyd-Iddewon, yn fradwr ac yn dwyllwr.

Ac mae hyn yn ein hatgoffa fod y cyfoethog ymhlith y colledig yr oedd Iesu yn eu ceisio. Er ei fod yn delio llawer gyda thlodion, fel Bartimeus ddall y tu allan i Jericho, mae eneidiau colledig y cyfoethog angen eu hachub hefyd.

Y ceisio

Yn nameg gyntaf Luc 15 roedd y bugail yn fodlon gadael y praidd a cherdded i chwilio am y ddafad golledig. Yma, mae'r Arglwydd Iesu yn gwybod beth fydd ymateb yr Iddewon oedd wedi casglu o'i gwmpas, mae'n gwybod y bydden nhw'n grwgnach am ei fod yn ymwneud â chasglwr trethi eto, a hwnnw'n *brif* gasglwr trethi. Wrth fynd i gartref Sacheus, felly, mae'r Arglwydd yn gorfod gadael y 'praidd' o Iddewon rhagfarnllyd, er mwyn ceisio enaid coll y prif gasglwr trethi.

Yn ail ddameg Luc 15 roedd gwraig yn fodlon 'sgubo'i bwthyn bach yng ngolau cannwyll er mwyn dod o hyd i'w darn arian colledig. Gallem ddweud fod Sacheus o'r golwg am ei fod yn fychan, ac yna am ei fod wedi dringo coeden. Ond roedd yr Arglwydd yn siŵr o'i geisio ac o'i gael. Doedd dim modd i Iesu beidio â dod o hyd i'w ddarn arian coll, fel petai.

Roedd y pres yn llawer mwy gwerthfawr i'r wraig yn ei meddiant. Gallai ei wario ar angenrheidiau bywyd. Ac ar ôl i'r Arglwydd Iesu ddod o hyd i Sacheus, roedd yn awyddus i fyw ei fywyd mewn ffordd gwbl wahanol a llawer mwy buddiol i eraill.

Tybed a ydym ni fel pobl Iesu Grist heddiw yn dangos yr un agwedd ragfarnllyd yn erbyn pobl wahanol ein hoes ni? Beth am eneidiau colledig cyfoethogion

crachaidd ein hardaloedd ni? Beth am y tlodion sydd ar gyffuriau ac yn niwsans i bob cymuned? Ble mae'r penderfyniad i ddod â'r Efengyl i bawb yn ein hardaloedd?

Yr achub

Fel y cafodd y bugail a'r wraig eu heiddo, cafodd Iesu Grist afael ar Sacheus. Mae'r Arglwydd yn nodi dau beth sydd yn dangos hyn: sef ei fod wedi profi iachawdwriaeth yn ei enaid, a'i fod wedi dod yn blentyn i Abraham.

Iachawdwriaeth

Ar ôl i Sacheus gyhoeddi ei fod yn rhoi hanner ei eiddo i'r tlodion, a thalu nôl ar ei bedwaredd i unrhyw un a dwyllwyd, dywed Crist fod iachawdwriaeth wedi dod i'r cartref yna. Roedd gras Duw wedi disgleirio yn enaid Sacheus trwy Haul Cyfiawnder, sef Crist. Roedd hyn wedi dod â meddyginiaeth i enaid y casglwr trethi, ac un arwydd o'i wellhad oedd ei haelioni tuag at eraill.

Mae'n amhosib dod i berthynas real â Christ heb i'r canlyniadau ddangos yn ein bywyd. Os nad yw'r ffrwythau'n dod, mae lle i amau y berthynas honedig.

Plentyn Abraham

Mae'n amlwg nad yw Iesu'n dweud fod Sacheus wedi dod yn Iddew y diwrnod hwnnw, oherwydd roedd yn Iddew yn barod. Sôn am linach ysbrydol Abraham oedd Iesu.

Roedd yr Iddewon yn ymffrostio byth a beunydd eu bod yn blant Abraham, ac felly yn blant Duw, ond mae'r Arglwydd yn cyhuddo llawer o fod yn blant diafol yn hytrach na phlant y patriarch (Ioan 8:39-44). Roeddent yn dangos gwrthryfel Satan yn erbyn Duw yn hytrach na ffydd Abraham.

Mae'r apostol yn pwysleisio'r un gwirionedd yn ei epistol at y Galatiaid: **"Gwyddoch, gan hynny, am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham. Am hynny, y mae pobl ffydd yn cael eu bendithio ynghyd ag Abraham, un llawn ffydd"** (Gal. 3:7,9). Wrth dderbyn Crist yn llawen, y mae Sacheus wedi etifeddu bendithion cyfamod Duw ag Abraham, mae wedi dod yn blentyn i Dduw.

Diolch am y Gwaredwr a ddaeth i geisio ac achub y colledig. Gadewch i ni fod yn enau ac yn draed iddo heddiw i barhau ei waith.